

# Bryn Alun

## Pafin calchfaen a golygfeydd pell

**Pellter:** 6.4km / 4 milltir

**Amser:** Tua 2 - 2.5 awr

**Parcio a chychwyn:** Maes parcio Pistyll Gwyn

**Cyf. Grid:** SJ189573, Map OS Explorer 265

**Graddfa:** Cymedrol (i fyny ac i lawr, rhai llwybrau'n aneglur)

**Cyfleusterau:** The Sun Inn, Eryrys; 01824 780402  
The Raven, Llanarmon-yn-iâl: 01824 780787

## Limestone pavement and wide views

**Distance:** 6.4km / 4 miles


**Time:** Allow 2 - 2.5 hours

**Parking and start:** Pistyll Gwyn car park

**Grid ref:** SJ189573, Explorer map 265

**Grade:** Moderate (undulating with some indistinct paths)

**Facilities:** The Sun Inn, Eryrys tel: 01824 780402;  
The Raven, Llanarmon-yn-iâl, tel:01824 780787



## Y Daith Gerdded

**1.** O'r maes parcio, cerddwch i'r chwith ac ar y boncyn glaswellt sy ar ochr y ffordd. Tueddwch i'r chwith ac i fyny gan ddilyn yr arwyddion heibio'r graig ar y chwith ac i'r coed. Ewch ymlaen, gan ddilyn y saethau drwy'r coed, heibio i dŷ a chaeau ar y llaw dde. Ewch drwy giât fechan ac, ar ôl dringo, ewch dros y gamfa ac i gae bychan. Cerddwch dros y cae i'r gornel bellaf, bydd y chwarel ar eich llaw chwith. Dilynwch y llwybr cul i groesi camfa yn y ffens bellaf o'ch blaen. Ewch i lawr i'r llwybr suddedig ac yna i'r chwith wrth yr arwydd gan ddilyn y llwybr ar i fyny, bydd y chwarel ar eich llaw chwith. Ewch drwy'r pyst giât ac i fyny drwy'r cae i fynd drwy'r giât chwith (o ddwy giât) sy yn y ffens yn y pellter. Cerddwch heibio'r tŷ ac i'r lôn. Trowch i'r dde ar y lôn, gan fynd ar i fyny. Anwybyddwch y tro sy ar y dde a'r fforch i'r chwith ymhen 25m.

Daw'r lôn i ben wrth y giât i'r cae ('Tan y Marian' ar y chwith). Ewch drwy'r giât ac ymhen ychydig o lathenni, tueddwch i'r dde ar lwybr sy'n codi ar draws yn groesgornel. Ymlaen i fyny'r llwybr hwn wrth iddo dueddu i'r dde ac yna i'r chwith. Pan welwch giât o'ch blaen, anwybyddwch hi a dringwch yn ofalus i lawr yn serth i'r chwith

drwy'r eithin a chroesi camfa ysgol dros y wal sy ar eich llaw dde. Ewch yn eich blaen yn syth ar draws y cae nesaf i groesi camfa yn y pellter ac i'r ffordd sy heb wyneb caled arni. Trowch i'r dde arni.

**2.** Ymhen tua 150m, lle mae'r llwybr yn fwy gwastad, trowch i'r chwith drwy'r hen giât a dros gamfa (saeth felen). I ddechrau, cerddwch yn syth ymlaen, yna gwyrrwch i'r chwith cyn dod at y ffens o'ch blaen. Dilynwch y llwybr sy'n dringo tua'r bryn ar y gorwel. Wrth agosáu at y man uchaf byddwch yn cerdded yn agos at y brigadau o galchfaen a elwir yn 'bafin'. Ewch i'r copa yna dilynwch y llinell o greigiau ar i lawr. Anelwch am fwch yn y wal ac i lwybr llydan islaw. Ewch i'r dde ar y llwybr hwn gan ei ddilyn wrth iddo ddringo tua ffens. Cadwch y ffens ar y dde a dilynwch y llwybr am 350m. Anwybyddwch y camfeydd ar y dde a'r chwith. Yn union cyn cyrraedd y gwifrau telefon uwchben, trowch i'r dde dros y cae a thua'r creigiau o'ch blaen (is-orsaf ar y chwith). Yn union cyn cyrraedd y creigiau, trowch i'r dde ac ar hyd llwybr glaswellt anamlwg am ryw 25m. Lle mae'r llwybr hwn yn troi i'r dde, trowch chithau i'r chwith a drwy'r eithin i groesi camfa sy yn y wal. Yn y cae nesaf, tueddwch i'r dde drwy'r eithin ac ar i fyny i groesi camfa ysgol yn y wal. Yn y cae



nesaf, ewch i'r hanner-chwith drwy'r eithin (llwybr aneglur) ac i lawr y cae. Anelwch am hen sied sydd ar y dde yn ymyl y ffordd o danoch. Dringwch y gamfa y tu ôl i'r sied ac i'r ffordd.

**3.** Trowch i'r chwith ar y ffordd a cherddwch i'r groesffordd. Trowch i'r dde heibio'r 'Sun Inn', yna cerddwch drwy bentref Eryrys. Ar gyrion y pentref, ewch heibio chapel Salem ar y llaw dde. Anwybyddwch y llwybrau ar y chwith a'r dde. Lle mae'r drofa yn y ffordd i lawr i'r dde, trowch i'r dde i lwybr troed (arwydd). Ewch heibio'r tai ar y llaw dde ac ewch ymlaen i lawr y llwybr llydan. Trowch i'r dde ble mae'r llwybr llydan yn ymuno â llwybr arall a cherddwch gan gadw tomenni gwastraff ('y tywod arian', sy'n is-gynnyrch y cloddio am blwm) ar y dde. Ewch ymlaen ar y llwybr llydan amlwg hwn, heibio adfeilion y gweithfeydd ar y dde. Ar y ffordd yn y llwybr llydan ewch i'r chwith (Tŷ Draw ar eich llaw chwith), ac i lawr i'r ffordd.

**4.** Trowch i'r chwith ar y ffordd. Ymhen llathenni, trowch i'r dde (arwydd) ac i lawr tuag at adeilad mawr sgwâr. Dyma lle roedd yr Injan Stem Cernyw a fu'n creu'r ynni i beiriannau'r mwngloddiau plwm cyfagos. Ar y gyffordd, trowch i'r chwith i lawr y llwybr llydan ac i'r ffordd unwaith eto. Trowch i'r dde a dilyn y ffordd i lawr yr allt. Ar y gyffordd â'r briffordd, trowch i'r dde a cherddwch yn ôl i'r maes parcio. (Cymerwch ofal! - ffordd brysur.)

## The Walk

**1.** From the car park turn left onto the grass bank beside the road. Then bear left uphill following the signed path (white arrows) by a rockface into the trees. Continue following the arrowed path through woodland, passing a house and fields on the right. Go through a small gate and after a rise cross a stile into a small field. Walk across the field to the far corner, with the quarry to the left, then follow the narrow path to cross a stile in the far fence beyond. Descend to a sunken track then turn left at fingerpost and follow the rising path, with the quarry on the left. Continue through a gateway and uphill through the field to go through the left gate (of two) in the far fence. Walk past a house onto a quiet lane. Turn right along the lane (ignoring a turning immediately on the right and the left fork after 25m) and follow the rising lane.

The lane ends at a gate (Tan y Marian on the left) that leads into fields. Go through the gate and in a few yards bear right on a rising diagonal footpath. Continue on path as it swings right, still climbing, then left. When a gate comes into view ahead, carefully bear left steeply down through gorse bushes to cross a ladder stile over a stonewall on right. Go straight ahead through the next field to the far end and cross a stile onto an unsurfaced track. Turn right along the track.



**2.** In about 150m, where the track levels, turn left through a gateway and cross a stile. Walk ahead initially, then curve left before the fence to follow a path (yellow arrow) which heads up towards the skyline. Continue over the highest point, walking beside smooth limestone outcrops, or pavements and follow the line of the rocks. Walk down, heading towards a gap in wall, to join an unsurfaced track below. Turn right along the track and follow it as it curves left upwards to a fence, keep fence on right. Ignore stiles on left and right, following the track for 350m. Just before the overhead telephone wires turn right across the open field, (substation on left) towards a rocky cutting. Immediately before the rocks, turn right along a faint grass track for about 25m and, where it bends right, turn left upwards to cross a stile in the wall. In the next field bear right and upwards through gorse to find a ladder stile in the wall. Cross the stile and in the following field keep half-left through more scrub (path is unclear). Further down the field head for an old shed on the right beside the road below. Climb the stile behind the shed to join the road.

**3.** Turn left along the road and at the crossroads turn right past the Sun Inn and walk through Eryrys. On the outskirts of the village pass Salem chapel on right. Ignore paths on left and right and, where the road bends down right, turn right onto a signed footpath, pass houses on the right, ignore gate, and continue down the track. Turn right where the track joins another and walk past an area of spoil on your right ('white sand', a by-product of lead mining). Continue on this clear track, past works ruins on right. At a track fork, go left (Ty Draw on your left) and down to road.

**4.** Turn left along the lane for a few yards then right onto a signed footpath down towards a large square stone tower, which housed a Cornish steam engine that once powered machinery in the nearby lead mines. At the next junction turn left down a track to reach the road again. Turn right and follow the road downhill. At the junction with the main road turn right and walk back to the car park (NB take care as road can be busy).

## Y Pafin Calchfaen

*Rhyw 350 miliwn o flynyddoedd yn ôl roedd môr trofannol bas oedd yn ferw o fywyd yn gorchuddio'r ardal hon. Ffuriodd y garreg galch o weddillion anifeiliaid a phlanhigion a adawyd ar lawr y môr hwn. Ceir cregyn anifeiliaid y môr yn ffosiliau yn y creigiau. Wedi hynny, bu symudiadau anferth y Ddaear yn plygu, ffawtio a thorri a chodi'r creigiau. Yn ddiweddarach, llifodd toddiannau oedd yn llawn mwynau i mewn i'r ffawtio gan ffurfio gwythiennau o fwynau plwm, copr, arian a sinc Yn ddiweddarach, fe erydodd llen iâ y creigiau ieuengaf oedd ar wyneb y calchfaen gan ei adael yn agored i'r tywydd. Yn araf bu'r glaw, sydd ychydig yn asid, yn toddi'r graig a lledu'r craciau gan ffurfio'r pafin calchfaen sydd yma heddiw. Dros y byd mae'r pafinau calchfaen yn brin, ac yn Ynysoedd Prydain mae llawer ohonynt. Bryn Alun yw ail bafin calchfaen mwyaf Cymru.*

## Limestone pavement

*350 million years ago a shallow tropical sea, teeming with life, covered the area. Limestone formed from plant and animal remains deposited on the sea floor, and shells of sea creatures remain as fossils in the rock. Since then, massive Earth movements folded, faulted, fractured and uplifted the rocks. Later, mineral-rich solutions flowed into the faults and fractures, forming veins of lead, copper, silver and zinc ore. Ice sheets later eroded the younger rocks above the limestone leaving it exposed. Rain, which is slightly acid, has slowly dissolved the rock and widened the joints forming the limestone pavement that we see today. Limestone pavements are globally rare and much of the remaining pavement is in the British Isles. Bryn Alun is the second largest in Wales.*

